Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru
North & Mid Wales Trunk Road Agent

# Adroddiad y Cyd-bwyllgor

## 16 Hydref 2023

Yn gweithio ar ran Llywodraeth Cymru
Working on behalf of the Welsh Government

## Cynnwys Tudalen


| | |
|---|---|
| 1. Cyflwyniad | 3 |
| 2. Dyrannu Gwaith i Unedau Darparu Gwasanaeth Awdurdodau Lleol | 3 |
| 3. Trefniadau Partneriaeth | 9 |
| 4. Gwasanaeth Traffig Cymru (TWS) Llywodraeth Cymru | 9 |
| 5. Gwasanaeth Swyddogion Traffig (TOS) Llywodraeth Cymru | 9 |
| 6. Cynrychiolydd yr Adran i Gontract Dylunio, Adeiladu, Cyllido a Gweithredu (DBFO) A55 Llywodraeth Cymru | 9 |
| 7. Bodloni Gofynion Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Chytundeb yr Asiantaeth | 10 |
| 8. Grŵp Llywio'r Asiantaeth | 10 |
| 9. Systemau Rheoli Ansawdd (QMS) TRMU | 11 |
| 10. Perfformiad yr Awdurdod Partner | 11 |
| 11. Ymgyngoriaethau PA | 11 |
| 12. Fframweithiau Sector Preifat | 11 |
| 13. Gwelliant Parhaus | 12 |
| 14. Anghydfodau dan Gymal 9.6 y Cytundeb Partneriaeth | 12 |

**ATODIADAU**

**Atodiad A – Cofrestr Risg Partneriaeth NMWTRA**

**Atodiad B – Dadansoddiad Data Gwasanaeth Traffig Cymru**

**Atodiad C – Adroddiad Gwasanaeth Swyddogion Traffig**

**Atodiad D – Perfformiad Uned Waith yr Awdurdod Partner**

**Atodiad E – Adroddiad Cynnydd a Pherfformiad Ymgynghoriaeth yr Awdurdod Partner**

**Atodiad F - Adroddiad Statws Contractau Fframwaith NMWTRA**

**Atodiad G – Cylch Gorchwyl y Cyd-bwyllgor**

## 1 Cyflwyniad

1.1 Mae’r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth am y pynciau sy’n dod o dan gylch gorchwyl penodol y Cyd-bwyllgor. Mae’r cyfnod adrodd ar gyfer 6 mis cyntaf blwyddyn ariannol 2023/24.


## 2 Dyrannu Gwaith i Unedau Darparu Gwasanaeth Awdurdodau Lleol

2.1 Roedd gwaith yn parhau i gael ei ddyrannu i bob Awdurdod Partner (PA) ar draws prif feysydd swyddogaethol yr Asiantaeth ar gyfer Gwasanaethau Ymgynghori a Gwaith yn unol â Chytundebau Darparu Gwasanaeth (SDA) NMWTRA. Mae pob PA yn gweithio o fewn rhaglen gyflawni, gan gyflawni’r rhaglen cynnal a chadw gylchol gyntaf a’r holl waith cynnal a chadw ymatebol angenrheidiol hyd at 19 Medi.

Mae rhaglen o ddarpariaeth cyfalaf hefyd yn cael ei gweithredu drwy Ymgyngoriaethau PA NMWTRA a Fframweithiau Ymgyngoriaethau, Wynebu a Chontractwyr. Fodd bynnag, mae’r llif cyfalaf a ragwelir ar lefel is o’i gymharu â’r lefelau eithriadol a gyflawnwyd yn ystod blynyddoedd ariannol 2020/2021 a 2021/2022. Mae’r gwariant cyfalaf a ragwelir ar £41m yn gyson â’r gwariant cyfalaf alldro ar gyfer 2019/20. Pan ystyrir chwyddiant, mae hyn yn ostyngiad mewn gwariant cyfalaf. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y gallai fod cynnydd yn ystod y flwyddyn mewn cyllidebau cyfalaf oherwydd tanwariant adrannol arall. Gallai hyn wella’r sefyllfa gyfalaf ar gyfer 2023/24.


2.2 Darperir statws ariannol a rhagolygon ar gyfer yr holl brif feysydd gwariant yn y ffigurau canlynol:

**Ffigur 1**
**Costau Hawliad Terfynol NMWTRA 2019/20 hyd 2022/23 a Dyraniad Cymeradwy Llywodraeth Cymru 2023/24**



**Ffigur 2**


**Gwariant 2023/24 NMWTRA (wedi'i ymrwymo hyd yma) yn ôl Llwybr**




*traws Rwydwaith/Arall: yn cynnwys Ynni / Arolygu / Rheoli Asedau / Holl Wariant Cat 1*

**Ffigur 3**

**Holl Gostau Cyfun Unedau Gwaith PA – Gwariant ar gyfer 2019/20-2022/23 a 2023/24 (wedi'u hymrwymo hyd yma)**




Nodyn er gwybodaeth – mae'r cynnydd yng nghostau sefydlog 23/24 yn bennaf oherwydd cynnydd chwyddiant sylweddol 22/23 o £523k


**Ffigur 4**

**Costau Uned Gwaith PA Heb gynnwys y Gaeaf a Ffi – Gwariant ar gyfer 2019/20-2022/23 a 2023/24 (wedi'u hymrwymo hyd yma)**




**Ffigur 5**

**Gwasanaeth Gaeaf - Gwariant ar gyfer 2019/20-2022/23 a 2023/24 (wedi'i ymrwymo hyd yma)**





**Ffigur 6**

**Costau Uniongyrchol NMWTRA yn ôl Swyddogaeth 2019/20 i 2022/23 a 23/24 wedi'u hymrwymo hyd yma**



**Ffigur 7**
**Gwariant Cyfalaf yn ôl Math o Fframwaith a Chontractwyr Eraill (heb gynnwys PAau) 2019/20 i 2022/23 a 2023/24(wedi'u hymrwymo hyd yma)**




| Contract | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | 2022/2023 | 2023/2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Assets & Systems Design | | | £60,942.42 | £552,100.10 | £129,171.08 |
| Consultancy Framework | £3,616,230.46 | £3,775,579.57 | £4,227,056.28 | £3,286,408.01 | £2,679,621.58 |
| Contractor Framework | £4,331,100.31 | £16,884,978.38 | £12,245,347.51 | £4,593,690.87 | £4,278,103.14 |
| M&E/Civil Engineering Framework | | | £918,368.52 | £252,619.40 | £3,894.08 |
| Other Contractors and Creditors | £1,245,096.35 | £5,021,156.79 | £3,572,962.44 | £3,301,419.38 | £802,918.88 |
| Surfacing Framework | £14,189,122.80 | £15,203,390.35 | £15,372,662.13 | £10,460,018.13 | £4,084,854.98 |
| Technology Framework | £881,551.10 | £1,538,076.35 | £761,775.68 | | |
| Technology Maintenance | £1,255,360.17 | £1,016,719.35 | £635,474.45 | £354,549.81 | £56,568.70 |
| Traffic Management | £7,687.68 | £1,360.00 | £2,880.00 | £13,000.00 | £9,404.82 |
| Tree Framework | | £3,341.39 | £9,600.69 | £21,286.85 | £20,000.00 |
| **Total** | **£25,526,148.87** | **£43,444,602.18** | **£37,807,070.12** | **£22,835,092.55** | **£12,064,537.26** |

## 3. Trefniadau Partneriaeth

3.1 Mae'r bartneriaeth yn parhau i weithio'n dda gyda lefelau da o gydweithio a pherfformiad.

### 3.3 Gweithredu'r Cytundeb Darparu Gwasanaeth (SDA)

Mae'r SDA yn parhau i ddarparu'r sail ar gyfer asesu perfformiad a chydymffurfiaeth PA yn erbyn meini prawf perfformiad diffiniedig i weithredu gofynion WGTRMM. Yn gyffredinol, mae PAau yn parhau i sicrhau lefelau cydymffurfio da yn y rhan fwyaf o feysydd.

### 3.4 Cofrestr Risg y Bartneriaeth

Mae hyn wedi cael ei adolygu a'i ddiweddaru i nodi risgiau i Bartneriaeth NMWTRA ac i ddangos bod camau gweithredu parhaus yn cael eu cymryd i reoli a lliniaru risgiau lle bynnag y bo modd. Mae'r Gofrestr Risg Partneriaeth wedi'i hatodi fel Atodiad A.

## 4. Gwasanaeth Traffig Cymru (TWS) Llywodraeth Cymru

4.1 Mae Gwasanaeth Traffig Cymru (TW) yn cwmpasu Cymru gyfan gan adrodd ar y ddwy Ardal Asiant Cefnffyrdd (NMWTRA a SWTRA). Mae TW yn parhau i ddarparu gwasanaeth cyfathrebu effeithiol iawn sy'n rhoi gwybod i'r cyhoedd am gyfyngiadau teithio a negeseuon diogelwch.

4.2 Mae data sy'n dangos perfformiad a darpariaeth y gwasanaeth hanner blwyddyn wedi'i gynnwys yn Atodiad B, sy'n dangos twf parhaus ac effeithiolrwydd gwell y gwasanaeth.

## 5. Gwasanaeth Swyddogion Traffig (TOS) Llywodraeth Cymru

5.1 Mae'r Gwasanaeth Swyddogion Traffig yn parhau i ddarparu gwell cydnerthedd yng nghoridorau ffyrdd deuol yr A55/A494 a'r A483, gyda dros 10,000 o ddigwyddiadau fel arfer yn cael sylw bob blwyddyn.

Mae data perfformiad cryno hanner blwyddyn ar gyfer y gwasanaeth wedi'i gynnwys yn Atodiad C.

## 6. Cynrychiolydd yr Adran i Gontract Dylunio, Adeiladu, Cyllido a Gweithredu (DBFO) A55 Llywodraeth Cymru

6.1 Mae NMWTRA yn parhau i ddarparu'r gwasanaeth hwn i Lywodraeth Cymru gan ddefnyddio adnoddau staff mewnol. Mae'r contract DBFO rhwng Llywodraeth Cymru a UK Highways Ltd yn berthnasol tan fis Rhagfyr 2028. Mae NMWTRA yn parhau i weithio gydag UK Highways (UKH) i gyflawni'r broses trosglwyddo gymhleth y mae angen ei chwblhau cyn diwedd y contract, a bydd cyfrifoldebau gweithredol a chynnal a chadw

yn cael eu trosglwyddo i Lywodraeth Cymru a NMWTRA. Mae peirianwyr ymgynghorol Atkins yn mynd rhagddynt i asesu agweddau oes weddilliol yr holl asedau ar ffordd y prosiect er mwyn cytuno ar raglen o fesurau adfer gydag UK Highways i sicrhau bod oes weddilliol cytundebol yn cael ei gyflawni wrth drosglwyddo.

6.2 Yn ystod y cyfnod adrodd, mae Pont Menai wedi bod yn gweithredu gyda chyfyngiad pwysau 7.5 T. Bu nifer o broblemau diffyg cydymffurfio gyda'r cyfyngiad ac mae Llywodraeth Cymru/NMWTRA/UKH wedi bod yn datblygu mesurau i geisio gwella cydymffurfiaeth a lleihau'r risg i'r bont. Mae UKH yn bwrw ymlaen â chynllun i ddisodli'r ceblau crogi parhaol a bydd y gwaith yn mynd rhagddo ddechrau hydref 2023. Bydd y gwaith hefyd yn cynnwys adnewyddu'r bont yn llawn cyn ei daucanmlwyddiant yn 2026.

## 7. Bodloni Gofynion Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Chytundeb yr Asiantaeth

7.1 Mae'r Uned Rheoli Cefnffyrdd (TRMU) yn gyfrifol am sicrhau bod gofynion Llywodraeth Cymru fel y nodir yng Nghytundeb yr Asiantaeth yn cael eu bodloni. Nid oes unrhyw faterion sy'n ymwneud â chyflawni gofynion WGMAA wedi cael eu codi gan Lywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod adrodd, gyda sylwadau cadarnhaol iawn yn cael eu derbyn gan Lywodraeth Cymru a Gweinidogion ynghylch y ffordd mae NMWTRA a'i bartneriaid Awdurdod Lleol yn perfformio.

## 8. Grŵp Llywio'r Asiantaeth

8.1 Cynhaliwyd cyfarfod o Grŵp Llywio'r Asiantaeth ar 23 Mai 2023. Roedd y pynciau a drafodwyd yn cynnwys:

8.2 **Diweddariad Ariannol a Rhaglenni 2022/23 / Diweddariad Ariannol 23/24**
Darparwyd diweddariad gan Lywodraeth Cymru ar gyllidebau. Mae pwysau refeniw yn parhau. £60m ar gyfer SRN. Mae Cynlluniau NTPD sy'n ymwneud â diogelwch yn cael eu blaenoriaethu a gallant fynd rhagddynt. Dim arwydd o unrhyw gyllideb ychwanegol. Diweddariad Ariannol 23/24 Mae'r flwyddyn ariannol nesaf yn edrych yn debyg. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn drafftio adroddiad i'r Bwrdd Portffolio ei gymeradwyo. Bydd asiantau'n parhau i weithio ar y rhaglen ddrafft nes bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi rhagor o wybodaeth iddynt.

8.3 **Rolau a Chyfrifoldebau / Diweddariad Adolygu Swyddogaethau.**
Mae gwaith yn parhau gyda'r Asiantau. Bydd canfyddiadau'r adolygiad allanol yn cael eu profi gyda changhennau mewnol Llywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Mehefin i weld a fydd hyn yn gweithio – bydd rhagor o ymgysylltu gyda'r ddau Asiant ar ôl hynny. Bydd y rhyngwyneb IDD o ran elfennau yn y ffordd mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni cynlluniau yn cael ei adolygu i sicrhau dull gweithredu mwy cyson.

8.4 **Rhaglen MAR/Adolygu Ffyrdd**
Mae Bwrdd Portffolio Llywodraeth Cymru bellach wedi'i sefydlu a'i gadeirio gan Peter McDonald (Cyfarwyddwr Trafnidiaeth), sy'n cynnwys pob adran a TrC. Cyllidebu cyffredinol sy'n gysylltiedig â'r strategaeth drafnidiaeth, mae WSP wedi cael ei gomisiynu i ystyried blaenoriaethu'r rhaglen MAR. Disgwylir drafft yn ystod yr

wythnos yn dechrau 28/5/23. Llywodraeth Cymru i sefydlu cyfarfodydd ym mis Gorffennaf a mis Hydref i drafod ymhellach gydag Asiantau

8.5 **Adnoddau – Llywodraeth Cymru/SWTRA/NMWTRA**
Cadarnhaodd y ddau Asiant fod y broses recriwtio yn dal i fod yn heriol iawn. Cadarnhaodd NMWTRA eu bod mewn sefyllfa ychydig yn well na 6 mis yn ôl oherwydd gwaith a wnaed i ddatblygu staff presennol ar gyfer rolau arwain yn y dyfodol a gweithredu'r cynllun prentisiaeth.

## 9. Systemau Rheoli Ansawdd (QMS) TRMU

9.1 Bydd cydymffurfiad parhaus yr Asiant ag ISO 9001 (System Rheoli Ansawdd), ISO 14001 (Systemau Rheoli Amgylcheddol) a 45001 (Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol) yn cael ei brofi gan BSI yn ystod archwiliadau i'w cynnal fis Medi 2023.

9.2 Yn ystod y cyfnod adrodd, llwyddodd yr Asiant i gadw ei achrediad ISO 27001 (Systemau Rheoli Diogelwch Gwybodaeth) ar gyfer darparu gwasanaeth Seilwaith TG Traffig Cymru. Nodwyd un esiampl mân o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr Archwiliad. Bydd archwiliad nesaf BSI ISO 27001 yn cael ei gynnal ym mis Gorffennaf 2024.

## 10. Perfformiad yr Awdurdod Partner

### 10.1 Unedau Gwaith PA

Mae perfformiad yn erbyn diffygion Categori 1 (CAT1), sef y diffygion hynny sy'n beryglus yn uniongyrchol i'r cyhoedd sy'n teithio, yn parhau i fod yn destun craffu oherwydd bod hyn yn weithgarwch risg uchel i Lywodraeth Cymru, NMWTRA a'i PAau. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r cyfnod o 24 awr sydd ei angen i "Ddiogelu'r" diffyg. Mae'r ystadegau perfformiad yn parhau i ddangos bod targedau perfformiad yn cael eu cyflawni'n gyson ac mae hyn wedi lleihau'r risgiau cysylltiedig i Lywodraeth Cymru, NMWTRA a PAau. Mae adroddiadau perfformiad Uned Gwaith PA ar gyfer 2023/24 hyd at 19 Medi i'w gweld yn Atodiad D.

## 11. Ymgyngoriaethau PA

11.1 Mae cynnydd hanner blwyddyn yr ymgyngoriaethau ac adrodd ar berfformiad ar gyfer 2022/23 wedi'u cynnwys yn **Atodiad E**.

## 12. Fframweithiau Sector Preifat

12.1 Mae contractau fframwaith NMWTRA yn parhau i weithio'n dda gyda pherfformiad da'n cael ei gyflawni gan gontractwyr ac ymgynghorwyr. Mae adroddiad cryno sy'n amlinellu statws Fframweithiau NMWTRA wedi'i gynnwys yn Atodiad F.

## 13. Gwelliant Parhaus

13.1 Mae nifer o gynlluniau gwella parhaus wedi cael eu datblygu yn ystod y cyfnod adrodd, gan gynnwys:

13.2 Mae NMWTRA bellach wedi cwblhau cynllun busnes pum mlynedd wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2023 i 2028. Cafodd y cynllun ei ddatblygu ar y cyd â staff NMWTRA a Thîm Rheoli'r Asiantaeth (AMT). Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar bedair prif thema fel a ganlyn:

- Pobl
- Yr amgylchedd
- Swyddogaeth
- Bygythiadau a Chyfleoedd Allanol.

13.3 Mae copi o'r cynllun wedi'i atodi gyda'r adroddiad, mae NMWTRA/Llywodraeth Cymru wedi cynnal treialon wynebu gyda Hogan's yn defnyddio Plaeniadau Asffalt wedi'u Hadfer (RAP) fel dull o ailgylchu plaeniadau sy'n deillio o brosiectau ailwynebu. Yn ôl yr arwyddion cynnar, mae'r treialon wedi bod yn llwyddiannus a bydd hyn yn golygu bod modd lleihau'r defnydd o agregau crai, gan wella cynaliadwyedd gweithrediadau wynebu ledled Cymru.

13.4 Mae NMWTRA yn paratoi i gynnal 'Arolwg o Gyflwr' y rhwydwaith yng Ngogledd Cymru. Bydd y rhain yn arolygon fideo gan ddefnyddio camerâu manylder uchel sydd wedi'u gosod ar gerbydau arolygu sy'n bodoli eisoes. Bydd y cynigion yn lleihau risg ac yn gwella effeithlonrwydd yn Nhîm Archwilio NMWTRA, yn rhoi graddfeydd cyflwr wyneb ffyrdd i Lywodraeth Cymru a fydd yn ei galluogi i flaenoriaethu ymyriadau cynnal a chadw.

13.5 Gan weithio gyda Llywodraeth Cymru, mae NMWTRA wedi gwella'r broses o gofnodi anifeiliaid sy'n cael eu lladd ar y ffyrdd ar yr SRN. Mae cofnodion bellach yn cael eu cadw yn system IRIS Llywodraeth Cymru a byddant yn helpu i lywio gwelliannau, mesurau lliniaru neu risgiau amgylcheddol newydd ar y rhwydwaith.

## 14. Anghydfodau dan Gymal 9.6 y Cytundeb Partneriaeth

14.1 Mae Cymal 9.6 y Cytundeb Partneriaeth yn nodi proses uwchgyfeirio ar gyfer datrys anghydfodau a allai godi rhwng y TRMU a'r PAau. Gellir cyfeirio anghydfodau o'r fath i'r Cyd-bwyllgor i benderfynu arnynt os ydynt yn parhau heb eu datrys.

14.2 Ar hyn o bryd nid oes unrhyw faterion sydd wedi'u huwchgyfeirio o dan y broses hon i'w hystyried gan y Cyd-bwyllgor.

# ATODIAD A

# Cofrestr Risg Partneriaeth NMWTRA

| Rhif | RISG | Tebygolrwydd | Effaith | Sgôr Risg: Tebygolrwydd x Effaith | EFFAITH Y RISG | PERCHENNOG Y RISG | GWEITHREDU AR Y RISG | LLINIARU HYD YMA | Tebygolrwydd | Effaith | Sgôr risg yn dilyn lliniaru Tebygolrwydd x Effaith |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Methu bodloni gofynion darparu gwasanaeth Llywodraeth Cymru. | 4 | 4 | 16 | 1. Gan ddibynnu ar natur a maint y methiant, dyma gamau gweithredu posibl Llywodraeth Cymru:-<br>a) Yr asiantaeth i weithredu cynllun gweithredu cywirol<br>b) Newid darparwr gwasanaeth ar gyfer meysydd gwasanaeth sy'n tanberfformio<br>c) Terfynu'r Asiantaeth. | Arweinydd a Phartneriaid | 1. Cynnal perfformiad o fewn lefelau targed gofynnol Llywodraeth Cymru. | 1. Monitro perfformiad yn rheolaidd gan TRMU a LlC.<br>2. Mae Grŵp Llywio'r Asiantaeth/Llywodraeth Cymru yn canfod ac yn mynd i'r afael â phroblemau posibl.<br>3. Cynnal cydymffurfiaeth â Systemau Rheoli Ansawdd.<br>4. Rôl craffu'r Cyd-bwyllgor.<br>5. Wedi rhoi'r drefn archwilio ar waith.<br>6. SOR diwygiedig wedi'i roi ar waith a'i gadarnhau fel y model caffael sy'n cael ei ffafrio gan Lywodraeth Cymru.<br>7. Meincnodi cadarn rhwng PAAu a'r sector preifat.<br>8. Comisiynu ffioedd sefydlog yn cael ei weithredu ar gyfer gwasanaethau ymgynghori, a phrofi'r farchnad yn briodol.<br>9. Cadarnhau perfformiad boddhaol gan archwilwyr allanol Llywodraeth Cymru.<br>10. Rhoi CCG 2016 ar waith yn gwella eglurder y gofynion<br>11. Adroddiadau rheolaidd yng Nghyfarfodydd y Pennaeth Gwasanaeth yn erbyn meini prawf perfformiad SDA. Materion a nodwyd yn cael sylw.<br>12. Datblygu dangosfwrdd perfformiad ac adroddiadau perfformiad misol<br>13. Mae system Datblygu Busnes NMWTRA bellach wedi aeddfedu ac yn cael ei defnyddio'n rhagweithiol i reoli datblygiad busnes a gwelliant parhaus<br>14. Rhoi gwell prosesau a system rheoli risg ar waith | 1 | 3 | 3 |
| 2 | Methu bodloni gofynion rheolaeth ariannol Llywodraeth Cymru. | 4 | 4 | 16 | 1. Methu bodloni gofynion cyllidebol Llywodraeth Cymru<br>2. Posibilrwydd o niwed sylweddol i enw da'r Asiantaeth a'r PAAu a allai fygwth dyfodol yr Asiantaeth.<br>3. Methu gwneud y gorau o gyllidebau<br>4. Effaith niweidiol ar lif arian PA<br>5. Llai o gyfle am gyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru oherwydd y tanwario ymddangosiadol yn y gyllideb bresennol. | Arweinydd a Phartneriaid | 1. Cynnal perfformiad o fewn lefelau targed gofynnol Llywodraeth Cymru.<br>2. Mynd i'r afael â'r ôl-groniad o Docynnau Gwaith a gwella'r gyfradd cwblhau er mwyn cyrraedd y targed o 80% o fewn 10 diwrnod | 1. Sefydlu System Cyfrifyddu Ymrwymiad gan TRMU<br>2. Gweithredu SOR newydd ynghyd ag anfonebu misol.<br>3. Sicrwydd costau yn y Rhestr o Gyfraddau a'r briffiau prisiau.<br>4. Wedi rhoi'r drefn archwilio ar waith.<br>5. Gweithredu sail comisiynu ffioedd sefydlog ar gyfer gwasanaethau ymgynghori, a thalu ar gwblhau cerrig milltir.<br>6. Rhoi SDA Gweinyddu Technegol Diwygiedig ar waith<br>7. Codi'r ôl-groniad o Docynnau Gwaith gyda Phenaethiaid Gwasanaeth PAAu.<br>8. Lefelau cwblhau tocynnau gwaith wedi gwella'n sylweddol.<br>9. Dangosfwrdd perfformiad a Power BI yn cael eu defnyddio i fonitro ac adrodd yn erbyn perfformiad darparu gwasanaeth | 1 | 4 | 4 |
| 3 | Llywodraeth Cymru yn terfynu'r Asiantaeth o ganlyniad i benderfyniad gwleidyddol. | 3 | 5 | 15 | 1. Terfynu Partneriaeth.<br>2. Posibilrwydd o golli incwm sylweddol.<br>3. Goblygiadau staffio sylweddol posibl.<br>4. Colled sylweddol posibl i'r economi leol. | Arweinydd a Phartneriaid | 1. Cynnal perfformiad ac enw da'r Asiantaeth a'r ddarpariaeth PA.<br>2. Gwelliant parhaus i ddangos gwerth am arian.<br>3. Cysoni'r Rhestr Gyfraddau a'r prosesau cyflawni.<br>4. Mabwysiadu dulliau ymarfer gorau o weithio i wella effeithlonrwydd gweithrediadau.<br>5. Cyflawni achosion busnes lleihau costau cyflwyno NMWTRA mis Ebrill.<br>6. Cyflawni arbedion cost targed sydd wedi'u | 1. Adolygiad mawr gan Lywodraeth Cymru wedi'i gwblhau...<br>2. Cyflwyniadau ac achosion busnes NMWTRA Ebrill 2015 wedi'u derbyn gan Lywodraeth Cymru.<br>3. Achosion Busnes Newid Model Asiantaethau Allweddol wedi cael eu rhoi ar waith yn llwyddiannus ym mis Ebrill 2016<br>4. Arbedion effeithlonrwydd eilaidd sy'n gysylltiedig â Newid Model nawr yn cael eu gwireddu.<br>5. Arbedion cost a aseswyd yn erbyn costau alldro 2016/17 yn dangos bod yr arbedion targed wedi cael eu cyflawni yn amodol ar archwiliad Llywodraeth Cymru.<br>6. Arbedion costau terfynol 2017/18 wedi'u cyflawni ac adroddiad wedi'i gyflwyno gan Asiantau ar gyfer Cyngor Gweinidogol | 1 | 5 | 5 |

| Rhif | RISG | Tebygolrwydd | Effaith | Sgôr Risg: Tebygolrwydd x Effaith | EFFAITH Y RISG | PERCHENNOG Y RISG | GWEITHREDU AR Y RISG | LLINIARU HYD YMA | Tebygolrwydd | Effaith | Sgôr risg yn dilyn lliniaru Tebygolrwydd x Effaith |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | hymestyn gan Lywodraeth Cymru.<br>7. Tystiolaethau ac adrodd ar arbedion cost i Archwilwyr Llywodraeth Cymru – yn amodol ar benderfyniad Llywodraeth Cymru | | | | |
| 4 | Un PA yn tynnu'n ôl o'r Bartneriaeth | 2 | 3 | 6 | Bygythiad i ddarpariaeth gwasanaeth ar rwydwaith Cefnffyrdd yn y sir yr effeithir arni. | Arweinydd a Phartneriaid | 1. Byddai angen Cytundeb Partneriaeth diwygiedig.<br>2. Byddai angen adolygu hyd a lled y gwasanaeth a ddarperir gan y PA sy'n gadael.<br>3. Byddai angen ailddyrannu gwaith i PA eraill neu gadwyn gyflenwi'r Sector Preifat.<br>4. Byddai angen i TRMU gynnal parhad y gwasanaeth<br>5. Mynd i'r afael â thynnu'n ôl yn rhannol gan Sir Ddinbych | 1. Mae Cymal 12 y Cytundeb Partneriaeth yn ymdrin â'r risg hon – gall yr Awdurdodau sy'n weddill gytuno ar y Cytundeb Partneriaeth diwygiedig.<br>2. Mae Cymal 6 y Cytundeb Partneriaeth yn ymdrin â gweithio trawsffiniol.<br>3. Trefniadau cyflenwi'r Sector Preifat ar waith drwy Fframweithiau os oes angen.<br>4. Adleoli rhwydwaith DCC yn llwyddiannus drwy gytundeb â Phartneriaid | 2 | 3 | 6 |
| 5 | Anghydfod sylweddol rhwng yr Awdurdod Arweiniol a Phartneriaid | 2 | 2 | 4 | Bygythiad i ddarpariaeth gwasanaeth | Arweinydd a Phartneriaid | 1. Dilyn y broses uwchgyfeirio | 1. Mae Cymal 9 y Cytundeb Partneriaeth yn diffinio'r broses uwchgyfeirio. | 1 | 2 | 2 |
| 6 | Gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer cydweithio / partneriaethau rhanbarthol llywodraeth leol. | 4 | 4 | 16 | 1. Gallai newid posibl i strwythur a maint y gadwyn gyflenwi a'r prosesau newid cysylltiedig effeithio ar ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol<br>2. Effaith bosibl ar barhad busnes | Awdurdod Arweiniol a Phartneriaid | 1. Monitro cynigion gydag Awdurdodau Partner | 1 Mae model NMWTRA diwygiedig yn gydnaws â threfniadau rhanbarthol | 4 | 2 | 8 |
| 7 | Cydymffurfio â'r Cytundeb Darparu Gwasanaeth | 4 | 4 | 16 | 1. Risg o ymchwiliad HSE/Yr Heddlu i Farwolaethau ar y Ffordd yn dilyn digwyddiad angheuol.<br>2. Risg o erlyniad amgylcheddol.<br>3. Risg i enw da Llywodraeth Cymru, NMWTRA a PA.<br>4. Diffyg cydymffurfio â'r SDA. | Awdurdod Arweiniol a Phartneriaid | 1. Sefydlu systemau rheoli ansawdd achrededig ar gyfer ISO9001, ISO14001, OHSAS18001 ac achrediadau perthnasol y Cynllun Sector. | 1. Pob PA yn cydymffurfio'n llawn.<br>2.NMWTRA yn darparu cymorth drwy'r gweithgor a Rheolwr Iechyd a Diogelwch NMWTRA<br>3. Gweler 2P uchod.<br>4. Mae pob PA bellach yn cydymffurfio â systemau QMS achredegig sydd ar waith<br>5. Defnyddio dangosfwrdd perfformiad | 1 | 4 | 4 |
| 8 | Cynllunio olyniaeth adnoddau staff NMWTRA a PA | 3 | 4 | 12 | Anhawster cynyddol o ran recriwtio a chadw staff proffesiynol a thechnegol addas a gweithwyr medrus | Arweinydd a Phartneriaid | Sefydlu swyddi hyfforddi a phrentisiaeth o fewn y strwythur staffio i gynhyrchu adnoddau staff yn y dyfodol. Gwella prosesau recriwtio | 1. Mae NMWTRA wedi sefydlu cynllun prentisiaeth ar draws pob maes darparu gwasanaeth. Hefyd nawr yn recriwtio i swyddi technegwyr dan hyfforddiant gyda chymorth ar gyfer addysg bellach a hyfforddiant galwedigaethol.<br>2. Y broses recriwtio nawr yn defnyddio gwasanaethau ar y we (gwefannau Linked in and Jobs) | 3 | 3 | 9 |

| Rhif | RISG | Tebygolrwydd | Effaith | Sgôr Risg: Tebygolrwydd x Effaith | EFFAITH Y RISG | PERCHENNOG Y RISG | GWEITHREDU AR Y RISG | LLINIARU HYD YMA | Tebygolrwydd | Effaith | Sgôr risg yn dilyn lliniaru Tebygolrwydd x Effaith |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | Cynnal Arbedion Costau Gweinidogion | 3 | 4 | **12** | Bygythiad i fodel darparu'r sector cyhoeddus os na ellir dangos gwerth am arian parhaus | Awdurdod Arweiniol a Phartneriaid | Cynnal lefel briodol o reoli costau drwy fecanwaith talu'r Rhetr Gyfraddau. Meincnodi meysydd swyddogaethol allweddol yn effeithiol i'w datblygu ymhellach, a gweithredu arferion gorau a chyfleoedd i wella effeithlonrwydd | 1. Adolygiad SoR i fod i gael ei gwblhau i symleiddio a gwella defnyddioldeb<br>2. Ymarfer diweddaru meincnodau yn cael ei gynnal<br>3. Cyfarfodydd rheolaidd gyda staff gweithredol ac uwch PAau i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â chyflawni, perfformiad a rheoli costau.<br>4. Gofynion ychwanegol Llywodraeth Cymru a'r costau cysylltiedig wedi'u gwahanu oddi wrth linell sylfaen arbed costau | 3 | 3 | **9** |
| 10 | Gallai canlyniad Adolygiad Ffyrdd Llywodraeth Cymru effeithio ar y rhaglen cyflawni cyfalaf | 3 | 4 | **12** | Gallai leihau llwyth gwaith ymgynghori'r Awdurdod Partner yn y tymor byr i ganolig wrth i brosiectau teithio llesol a newid yn yr hinsawdd eraill gael eu comisiynu.<br><br>Gellir dargyfeirio neu golli adnoddau a allai leihau'r gallu a'r capasiti i ymgymryd â chomisiynau eraill | LlC/Awdurdod Arweiniol a Phartneriaid | NMWTRA i olrhain canlyniad yr Adolygiad Ffyrdd a rhoi gwybod i PAau.<br>PAau i ddatblygu sgiliau / gallu yn unol ag amcanion strategaeth Trafnidiaeth Cymru o ran teithio llesol, newid yn yr hinsawdd a gwaith adnewyddu a chynnal a chadw mawr ar asedau. | 1. Gofyn am adroddiadau cynnar ar ganlyniadau'r Adolygiad Ffyrdd gan Lywodraeth Cymru<br>2. Rhoi gwybod i PA am newidiadau i'r math o brosiect yn unol â WTS<br>3. Fforymau gyda CECA Cymru a Llywodraeth Cymru yn cael eu sefydlu i bennu natur y prosiectau y gellir bwrw ymlaen â nhw | 3 | 3 | **9** |
| 11 | Canlyniad Adolygiad Rhaglen Adnewyddu Asedau Mawr (MAR) | 3 | 3 | **9** | Gallai cynnydd mewn dull gweithredu sy'n seiliedig ar risg ar gyfer swyddogaethau cynnal a chadw leihau rhai ffrydiau gwaith ar gyfer PAau | NMWTRA/WG | NMWTRA i helpu Llywodraeth Cymru i ddatblygu Gofynion Cynnal a Chadw Cefnffyrdd newydd (WGTRMM) i sicrhau cydbwysedd cywir rhwng diogelwch, cost ac amgylchedd. Bydd unrhyw newidiadau i drefniadau cynnal a chadw yn cael eu rheoli drwy broses bontio gyda ffrydiau gwaith eraill yn cael eu nodi e.e. mwy o waith amgylcheddol. | 1. NMWTRA mewn trafodaeth â Llywodraeth Cymru ac yn aros am gynnwys Adroddiad Lugg<br>2. Trefnu cyfarfod gyda Llywodraeth Cymru i drafod gweithredu argymhellion adroddiad Lugg a MAR ar gyfer Medi 2023 | 3 | 3 | **9** |

# ATODIAD B

# Uchafbwyntiau Gwasanaeth Traffig Cymru a Dadansoddiad Data 2023/24




## Uchafbwyntiau Cyfathrebu

### 2023 Mai i Awst


**6.5k o alwadau wedi'u hateb**
**Delio ag oddeutu 266 o negeseuon e-bost bob mis ar gyfartaledd**
**63k o ddilynwyr cyfryngau cymdeithasol**
**710k o ymweliadau â'r wefan, cynyddu o 7% o'i gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol**

### Ymgyrchoedd yr Haf

Lansiwyd ein hymgyrchoedd diogelwch dros yr haf i ddylanwadu ar ymddygiad gyrwyr o fis Ebrill ymlaen drwy gydol yr haf.

Mae tîm Traffig Cymru wedi bod yn defnyddio data llif traffig a thagfeydd i ragweld mannau problemus o ran traffig yn well cyn penwythnosau gŵyl y banc er mwyn ceisio gwella capasiti'r rhwydwaith. Mae'r wybodaeth hon wedyn yn cael ei rhannu â'r cyhoedd er mwyn iddyn nhw allu osgoi'r cyfnodau prysuraf.




### Paratoi ar gyfer cyflwyno 20mya

O fis Mai ymlaen, rydyn ni wedi bod yn gweithio'n agos gyda thimau prosiect o bob cwr o Gymru i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cyhoedd am y gwaith ffordd sydd ei angen i baratoi'r seilwaith cefnffyrdd. Cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r gwaith yn ystod misoedd yr haf i fod yn barod ar gyfer mis Medi ac i leihau'r effaith ar ysgolion o ran traffig.





Fe wnaethom gyhoeddi amseriad y gwaith a'r mathau o fesurau rheoli traffig sy'n angenrheidiol ar bob safle ymlaen llaw er mwyn i'r cyhoedd allu cynllunio ymlaen llaw, a byddai modd tarfu cyn lleied â phosibl.

Buom yn cydweithio'n agos â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru i greu cyfres o asedau cyfathrebu a oedd yn egluro'r newid i'r cyfyngiadau cyflymder i'r cyhoedd a phartneriaid mewnol.

## Cydweithio â phartneriaid i wella materion parcio yn Ogwen

Buom yn gweithio gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, cydweithwyr awdurdodau lleol a sefydliadau cymunedol yn ardal Ogwen i hyrwyddo twristiaeth a theithio cynaliadwy drwy gyflwyno mesurau arloesol a oedd yn cynnwys gwella cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus, gosod cyfyngiadau parcio pellach a synwyryddion parcio i wella profiad ymweld i bobl leol a thwristiaid.




show clearly where parking is restricted in problematic areas, particularly during the peak season
e area to enjoy the stunning scenery and outdoor activities.


orth and Mid Wales Trunk Road Agent said:


**g closely with partners to address irresponsible parking at Ogwen. We hope that these gether with last year's parking improvements, will ensure that everyone can enjoy this We encourage those travelling in the area to plan ahead and to park responsibly."**


## @TrafficWales - N+S


| | | |
|---|---|---|
| 16129 Likes | 5699 Mentions | 5929 New Followers |
| 2303 Post Replies | 10715 Retweets | |


Traffig Cymru Traffic Wales




## @TraffigCymru - G + D

483
Likes


515
Mentions

49
New Followers


181
Post Replies

1475
Retweets


Followers





Likes





Mentions





New Followers




Post Replies




Retweets



# ATODIAD C

# Adroddiad Gwasanaeth Swyddogion Traffig


**Uned Gweithrediadau (Swyddog Traffig Llywodraeth Cymru a Swyddogaethau Ystafell Reoli)**

Ym mis Ionawr 2023, cynhaliodd yr Asiant adolygiad o'r Uned Weithrediadau a nododd y potensial ar gyfer gwella trefniadau staffio'r Ystafell Reoli. Cyflwynwyd achos busnes i Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin i gynyddu niferoedd staff llawn amser yr Ystafell Reoli o 9.5 i 12, gan ddarparu 3 aelod o staff ar bob un o'r 4 tîm. Roedd hyn yn gwella gwytnwch y Gwasanaeth, y gwaith o reoli'r galw cynyddol am wasanaethau, a chyflawnwyd buddion lles cysylltiedig, a hynny ar gost refeniw niwtral, drwy leihau'r ddarpariaeth goramser. Cymeradwyodd Llywodraeth Cymru yr achos busnes ac mae pedwar aelod newydd o staff wedi cael eu recriwtio ac yn cael hyfforddiant ar hyn o bryd.

Mae gwaith yn parhau i wella galluoedd trawsffiniol a fydd yn rhoi'r grym i Swyddogion Traffig Llywodraeth Cymru weithredu yn Lloegr a rheoli digwyddiadau sy'n effeithio ar ein Rhwydwaith Cefnffyrdd, neu sydd â'r potensial i effeithio arno, yn well.


Mae gwelliannau wedi cael eu gwneud i atal anifeiliaid rhag ymledu, yn enwedig o amgylch ardal Penmaenbach yr A55. Mae llinellau ffens newydd a theledu cylch cyfyng gyda Deallusrwydd Artiffisial sy'n canu pan fydd defaid yn dod at y rhwydwaith cefnffyrdd wedi cael eu rhoi ar waith. Mae hyn yn golygu bod modd adnabod ac ymateb yn gyflymach i ddigwyddiadau, gan wella diogelwch a lleihau'r tarfu ar y rhwydwaith.

<u>**Cymharu Data ar gyfer CY 21/22 i 22/23**</u>
Mae Siart Un yn dangos cyfrif y traffig ar gyfer Blwyddyn Ariannol 22/23 o'i gymharu â Blwyddyn Ariannol 23/24 (hyd yma). Yn ystod 5 mis cyntaf blwyddyn ariannol 23/24, roedd cynnydd net o tua 6.2 miliwn o gerbydau yn defnyddio'r Rhwydwaith Cefnffyrdd nag a gofnodwyd ar gyfer yr un misoedd ym Mlwyddyn Ariannol 22/23.





*Siart Un: Cyfrif Traffig (Miliynau) yn ôl Mis, Blwyddyn Ariannol 22/23 i 23/24 (hyd yma), gan ddangos cynnydd net o 6.2 miliwn o gerbydau ar gyfer 5 mis cyntaf blwyddyn ariannol 23/24.*

Mae Siart Dau yn cymharu cyfrifiadau traffig ar gyfer Blwyddyn Ariannol 18/19 i Flwyddyn Ariannol 23/24, sy'n dangos cynnydd sylweddol mewn cyfrif traffig ar y Gefnffordd yn ystod y 5 mlynedd diwethaf. Yn ystod 5 mis cyntaf Blwyddyn Ariannol 23/24, mae cynnydd o tua 43.3 miliwn o'i gymharu â Blwyddyn Ariannol 18/19, gyda 9.8 miliwn yn fwy o gerbydau'n cael eu cofnodi ym mis Awst. Gwelwyd y cynnydd hwn yn dilyn codi cyfyngiadau'r llywodraeth ar deithio yn ystod pandemig y coronafeirws ac mae'r duedd wedi parhau.





*Siart Dau: Cyfrif Traffig (Miliynau) fesul Mis, sy'n dangos cynnydd sylweddol mewn Cyfrifiadau Traffig ar y Rhwydwaith Cefnffyrdd dros y 5 mlynedd diwethaf.*




*Siart Tri: Digwyddiadau wedi'u cofnodi yn ôl math ar gyfer Blwyddyn Ariannol 23/24 (hyd yma).*

Mae Siart Tri yn dangos bod yr Uned Weithrediadau wedi rheoli dros 2,700 o achosion o dorri i lawr yn ystod 5 mis cyntaf Blwyddyn Ariannol 23/24, 500 o gerbydau llonydd a 300 o wrthdrawiadau traffig ffyrdd ar draws y rhwydwaith. Maent hefyd wedi delio â nifer o gerddwyr a digwyddiadau anifeiliaid ar draws y rhwydwaith, sy'n helpu i gadw'r Rhwydwaith Cefnffyrdd yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru yn ddiogel ac yn ddibynadwy.




*Siart Pedwar: Cerbydau a Symudwyd gan Swyddogion Traffig (Llusgo / Hebrwng) Blwyddyn Ariannol 21/22, 22/23 a 23/24 (hyd yma).*

Mae Siart Pedwar yn dangos cynnydd net mewn cerbydau sy'n cael eu symud (yn ddi-dâl) gan Swyddogion Traffig o'r Rhwydwaith Cefnffyrdd. Mae'r arferion gweithredol newydd a weithredwyd yn Awst 2022 bellach wedi'u gwreiddio, a bellach mae cerbydau sy'n torri i lawr mewn ardaloedd llawr caled a chilfannau caeedig yn cael eu symud i fannau diogel cydnabyddedig, fel gorsafoedd gwasanaeth a chyffyrdd oddi ar y rhwydwaith.

## Dangosyddion Perfformiad Allweddol Gwasanaeth WCTO 2023/24

Mae gan NMWTRA y Dangosyddion Perfformiad Allweddol canlynol ar gyfer yr uned Weithrediadau.

1. Amser cyfartalog i fynychu digwyddiadau (o Ddanfon i Gyrraedd) o lai nag 20 munud.
2. 95% o'r digwyddiadau i'w mynychu (o Ddanfon i Gyrraedd) o fewn 20 munud.
3. Cyfanswm amser digwyddiad ar gyfartaledd (Danfon/Cyrraedd i Adael) o lai na 60 munud.
4. 95% o gyfanswm amser digwyddiadau (Anfon/Cyrraedd i Adael) o fewn 60 munud.

At ddibenion cymharu, roedd DPA Priffyrdd Cenedlaethol (Highways England) 2020 ar gyfer Clirio Digwyddiadau yn 85%, gan gyrraedd 89.1% (Adroddiad Meincnodi ORR Chwefror 2021[1]).

***DPA1: Amser cyfartalog i fynychu digwyddiadau (o Ddanfon i Gyrraedd) o lai nag 20 munud***

**Avg time (m) to attend by month**

| Month | FY23/24 |
|---|---|
| April | 00:06:51 |
| May | 00:08:14 |
| June | 00:06:52 |
| July | 00:08:55 |
| August | 00:10:46 |
| September | 00:07:41 |
| October | :: |
| November | :: |
| December | :: |
| January | :: |
| February | :: |
| March | :: |
| **Total** | **00:08:20** |

Siart Pump: 'Amser cyfartalog (munudau) i fynychu digwyddiadau yn ôl mis, Blwyddyn Ariannol 23/24'

Mae Siart Pump yn dangos bod **cyfartaledd amser Gwasanaeth WGTO i fynychu digwyddiadau yn sylweddol is** na'r 20 munud ar gyfer DPA1, sef 8 munud 20 eiliad ar gyfer Blwyddyn Ariannol 23/24.

***DPA2: 95% o'r digwyddiadau i'w mynychu (o Ddanfon i Gyrraedd) o fewn 20 munud***

**Ar gyfer FY23/24** mae Gwasanaeth WGTO wedi **mynychu 93% o ddigwyddiadau** o fewn 20 munud, sy'n **2% yn is** na'r **targed DPA 95%**. Mae dadansoddiad o ddata'n cael ei wneud i ganfod lle gellir cyflawni gwelliannau posibl o ran lleihau amseroedd ymateb.

***DPA3: Cyfanswm amser digwyddiad ar gyfartaledd (Danfon/Cyrraedd i Adael) o lai na 60 munud***

**Total time (m) on Call by Month**

| Month | FY23/24 |
|---|---|
| April | 00:23:34 |
| May | 00:25:26 |
| June | 00:25:09 |
| July | 00:26:31 |
| August | 00:28:23 |
| September | 00:29:50 |
| October | :: |
| November | :: |
| December | :: |
| January | :: |
| February | :: |
| March | :: |
| **Total** | **00:25:59** |

Siart Chwech: 'Cyfanswm amser digwyddiad ar gyfartaledd (munudau), Blwyddyn Ariannol 23/24'

Mae Siart Chwech yn dangos **cyfartaledd cyfanswm amser digwyddiadau** Gwasanaeth WGTO ar **lai na hanner y DPA 60 munud**, sef tua 26 munud ar gyfer Blwyddyn Ariannol 23/24.

***DPA 4: 95% o gyfanswm amser digwyddiadau (Anfon/Cyrraedd i Adael) o fewn 60 munud.***


**Ar gyfer FY22/23** mae Gwasanaeth WGTO wedi **rheoli 92% o ddigwyddiadau** o fewn 60 munud, sy'n **3% yn is** na'r **targed DPA 95%**. Mae dadansoddiad o ddata'n cael ei wneud i ganfod lle gellir cyflawni gwelliannau posibl o ran lleihau cyfanswm amseroedd digwyddiadau.

[1] https://www.orr.gov.uk/sites/default/files/2021-02/benchmarking-highways-england-2020-progress-report.pdf


# ATODIAD D


# NMWTRA 2023/24
# Perfformiad Gwaith yr Awdurdod Partner

## D1 - Perfformiad Gwaith yr Awdurdod Partner




| Target | % |
|---|---|
| 24 Hour Temporary / Make Safe Actions | 100% |
| 24 Hour Holding / Permanent Actions | 100% |
| 7 Day Permanent Actions | 95% |
| 28 Day Holding / Permanent Actions | 95% |




2023/24 @31/08/2023- Closure of Work Instructions- Percentage Closed to date
100%
90%
80%
70%
60%
50%
40%
30%
20%
10%
0%
68%
30%
Cat 1s
Other works

# ATODIAD E

# Ymgynghoriaeth yr Awdurdodau Partner - Adroddiad Cynnydd a Pherfformiad


## E1 Adolygiad o Brosiectau Cyflawni Cyfalaf


### E1.1 2023/24 Blwyddyn Ariannol

Mae NMWTRA wedi comisiynu cyfanswm o **200** o brosiectau i'n cadwyn gyflenwi Awdurdod Partner a'n Hymgynghorydd Allanol yn ystod hanner cyntaf 2023/24, gyda gwerth cronnus o **£7,303,878.78**; wedi'i rannu rhwng ymgynghorwyr fel a ganlyn:

| ConsultantName | No. Of Commissions | Project Total |
|---|---|---|
| Atkins | 6 | 377,119.30 |
| Ceredigion | 11 | 110,079.44 |
| Conwy | 7 | 96,325.84 |
| Denbighshire | 6 | 177,420.79 |
| Mott MacDonald | 29 | 966,091.47 |
| Powys | 37 | 920,815.69 |
| WSP | 6 | 1,041,137.40 |
| YGC | 98 | 3,614,888.85 |
| **Total** | **200** | **7,303,878.78** |

***Ffigur E1.1:*** *Mae'r tabl yn dangos nifer y comisiynau a chyfanswm gwerth prosiect ar gyfer pob ymgynghorydd hyd yma.*




***Nodyn:*** *Mae cyfanswm prosiect cyfredol YGC yn cynnwys £463k o gostau sy'n gysylltiedig â phrosiect mawr Llywodraeth Cymru - cynllun Gwella A55 Abergwyngregyn i Dai'r Meibion.*


## E2 Statws Cost Prosiectau

### E2.1 2023/24 Blwyddyn Ariannol

Mae cost gronnus y prosiect ar gyfer hanner cyntaf 2023/24 yn cynnwys rhannu'r gost ymgynghori fewnol a'r gost trydydd parti allanol sy'n gysylltiedig â phob comisiwn. Gellir gweld y rhaniad rhwng costau mewnol ac allanol yn y dadansoddiad isod:

| ConsultantName | Sum of Activites Total | Sum of Expenses Total | Sum of Price List | Sum of Project Total |
|---|---|---|---|---|
| Atkins | 196,518.60 | 600.00 | 180,000.70 | 377,119.30 |
| Ceredigion | 67,368.54 | 21,795.00 | 20,915.90 | 110,079.44 |
| Conwy | 86,528.89 | 9,427.50 | 369.45 | 96,325.84 |
| Denbighshire | 108,954.70 | 68,466.09 | 0.00 | 177,420.79 |
| Mott MacDonald | 529,449.68 | 115,767.32 | 320,874.47 | 966,091.47 |
| Powys | 617,795.19 | 136,203.48 | 166,817.02 | 920,815.69 |
| WSP | 572,720.12 | 14,816.08 | 453,601.20 | 1,041,137.40 |
| YGC | 1,363,657.48 | 1,575,943.76 | 675,287.61 | 3,614,888.85 |
| **Total** | **3,542,993.20** | **1,943,019.23** | **1,817,866.35** | **7,303,878.78** |

***Ffigur E2.1:** Mae'r tabl yn dangos dadansoddiad costau prosiectau yn 2023/24.*




***Nodyn:** Mae cyfanswm prosiect cyfredol YGC yn cynnwys £463k o gostau sy'n gysylltiedig â phrosiect mawr Llywodraeth Cymru - cynllun Gwella A55 Abergwyngregyn i Dai'r Meibion.*

## E3 Cyfleoedd Tendro

### E3.1 Blwyddyn Ariannol 2023/24: Profi'r Farchnad

Nid yw NMWTRA wedi cynnal unrhyw brawf marchnad yn ystod hanner cyntaf 2023/24 oherwydd bod y Fframwaith Ymgynghori wedi'i adnewyddu ym mis Medi 2022, ac i ragweld y bydd y Cytundeb Darparu Gwasanaeth wedi'i ddiweddaru yn cael ei dderbyn gan yr Awdurdodau Partner. Bydd profion marchnad yn ailddechrau yn Ch3 a Ch4.

### E3.2 Blwyddyn Ariannol 2023/24: Mini-gystadleuaeth

Mae NMWTRA yn cynnal asesiadau tendr o **3** thendr a ddychwelwyd yn ddiweddar yn dilyn ymarfer mini-gystadleuaeth, a bydd manylion y rhain yn cael eu rhannu yn ystod y cyfnod adrodd nesaf.

Roedd y tendrau ar gyfer amrywiaeth o brosiectau amlddisgyblaethol a oedd â gwerth amcangyfrifedig o £50k ac a gafodd eu tendro drwy Fframwaith Ymgynghori NMWTRA o dan Lot 2 a/neu Lot 3.

## E4 Monitro Perfformiad

### E4.1 Blwyddyn Ariannol 2023/24

Mae Noddwyr Prosiect NMWTRA yn cynnal cyfarfodydd adolygu prosiect rheolaidd gyda Rheolwyr Prosiect ymgynghorol ar wahanol gamau yn natblygiad y cynllun; mae'r cyfarfodydd hyn yn amhrisiadwy i fonitro cynnydd, rhaglen a pherfformiad ar bob comisiwn.


Mae Noddwyr Prosiect NMWTRA, ar y cyd â'r Rheolwyr Prosiect ymgynghorol, wedi cwblhau asesiadau Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) interim ar gyfer prosiectau byw cyfredol yn ystod hanner cyntaf 2023/24, gan ddefnyddio PMS a'i adnodd asesu DPA, ac mae'r manylion i'w gweld yn y dadansoddiad isod.


Mae'r dadansoddiad canlynol yn seiliedig ar **45** o asesiadau **DPA** yn cael eu cwblhau gan Noddwyr Prosiect NMWTRA a **34** o asesiadau **DPA** gan Reolwyr Prosiect Ymgynghorol yn ystod hanner cyntaf 2023/24:

| ConsultantName | No. of KPI Assessments by Client | No. of KPI Assessments by Consultant |
|---|---|---|
| Atkins | 1 | 0 |
| Conwy | 1 | 1 |
| Mott MacDonald | 6 | 5 |
| Powys | 10 | 10 |
| WSP | 1 | 1 |
| YGC | 26 | 17 |
| **Total** | **45** | **34** |

***Ffigur E4.1:*** *Tabl yn dangos nifer yr asesiadau DPA dros dro o gwblhawyd yn 2023/24.*

Mae'r isod yn dangos y sgoriau DPA cyfartalog cyffredinol ar gyfer ymgynghorwyr a chleientiaid yn 2023/24:




Cafodd yr holl asesiadau DPA eu sgorio yn unol â'r diffiniadau canlynol:

| Definition | Scores |
|---|---|
| Totally satisfied – Performance related to this KPI could not have been bettered | 9 - 10 |
| Good - Performance is such that at least 50% of the KPI requirements have been bettered | 7 - 8 |
| Neither satisfied nor dissatisfied – the minimum requirements of the commission related to this KPI have been met | 4 - 6 |
| Poor - Performance is such that not all of the minimum requirements related to this KPI have been met | 2 - 3 |
| Totally dissatisfied – Performance is such that all requirements related to this KPI have failed to be achieved | 1 |
| Not Applicable – This was not applicable to the project | *N/A* |

## E5 Cyflawni Cyfalaf NMWTRA - Prosiectau Sylweddol

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am yr holl brosiectau Cyfalaf sydd o bwysigrwydd strategol a gweinidogol i'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol yng Nghymru sy'n cael eu cyflawni ar hyn o bryd gan NMWTRA ar ran Llywodraeth Cymru wedi'i chynnwys isod:

**Gwella Pont Afon Dyfrdwy yr A494 (NMWTRA/Motts)**

Mae cyhoeddi'r gorchmynion wedi cael ei ohirio ymhellach tra bydd y cynllun yn cael ei adolygu yn erbyn pob un o'r pedwar diben/prawf fel y nodir yn ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adolygiad Ffyrdd. Cynllun wedi'i gynnwys yng 'Nghynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth 2022 i 2027' Llywodraeth Cymru cyf. **SRN 3b**.

**Cyffordd 19 yr A55 i Glan Conwy (NMWTRA/WSP)**

Mae'r estyniad i'r llwybr teithio llesol ar hyd Ffordd Conwy yr A547 wedi cael ei ohirio tan fis Ionawr 2025. Cynllun wedi'i gynnwys yng 'Nghynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth 2022 i 2027' Llywodraeth Cymru cyf. **SRN 5d**.

**A483 Cyffordd 3 Wrecsam – Gwelliant C6 – CA2 (NMWTRA/Motts)**

Mae holl weithgareddau Cyfnod Allweddol 2 bellach wedi'u cwblhau. Cafodd y cynllun ei ailenwi'n 'Wrecsam A483 gwelliant coridor aml-ddull a chysylltedd canol y ddinas' a'i gynnwys yng 'Nghynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth 2022 i 2027' Llywodraeth Cymru, cyf. **SRN 6a**. Bydd y cynllun yn cael ei ddarparu rhwng Llywodraeth Cymru a Chyngor Wrecsam.

**Prosiectau NMWTRA sy'n destun yr Adolygiad Ffyrdd:**

Yn dilyn cyhoeddi adroddiad 'Dyfodol Buddsoddi ar y Ffyrdd yng Nghymru' ym mis Chwefror 2023, ac ymrwymiad 'Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth 2022 i 2027' Llywodraeth Cymru i gyflawni rhaglenni a phrosiectau yng Nghymru (gweler Atodiad 2 y Cynllun Datblygu Cenedlaethol,

Atodiad 2), byddai prosiectau'n cyd-fynd â'r profion a nodir yn ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adolygiad Ffyrdd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau 2 brosiect a gafodd eu cynnwys yn y 'Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth 2022 i 2027' i NMWTRA i barhau yn 2023/24:

- A470 Caersws - NTDP cyf. **SRN 7c**
- A40 Mill Brook Farm, Aberhonddu – NTDP cyf. **SRN 7b**

Isod mae rhestr o'r holl brosiectau a oedd yn destun yr Adolygiad Ffyrdd ac sydd wedi'u cynnwys yng 'Nghynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth 2022 i 2027' Llywodraeth Cymru:

| **Teitl y Prosiect:** | **Cyf. NTDP:** |
|---|---|
| A494 Aston Hill | SRN 6h |
| A487 Dorglwyd/Comins-coch | SRN 7a |
| A40 Fferm Mill Brook, Aberhonddu | SRN 7b |
| A470 Caersws | SRN 7c |
| A487 Rhiwstaerdywyll | SRN 7d |
| Ailarfarniad o'r A487 Llwyn Mafon | SRN 7e |
| A494 Cyffordd Ffordd Maesgamedd | SRN 7j |
| A494 Lôn Fawr, Rhuthun | SRN 7l |
| A44 Llangurig i Aberystwyth | SRN 7o |

Ar ben hynny, cafodd NMWTRA gyfle i roi sylwadau ac adborth ar 'Adroddiad Interim Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru' (Mehefin 2023) dan arweiniad yr Arglwydd Burns GCB, yn ogystal â 'Cynnal ffyrdd strategol yng Nghymru – Adolygiad Lugg' (Mehefin 2023) dan arweiniad Matthew Lugg OBE.

Bydd yr adolygiadau/adroddiadau annibynnol yn llywio prosiectau eraill sydd wedi'u cynnwys yng 'Nghynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth Cenedlaethol 2022 i 2027' Llywodraeth Cymru, sef:

- Datblygu a chyflwyno Rhaglen Adnewyddu Asedau Mawr (MAR) ar gyfer SRN yng Nghymru – NTDP cyf. **SRN 3a**
- A55, A494 a llwybrau eraill y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol yn unol ag unrhyw argymhellion perthnasol gan Gomisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru – NTDP cyf. **SRN 6f**

# ATODIAD F

# Adroddiad Statws Contractau Fframwaith NMWTRA

**Fframweithiau NMWTRA, caffael contractau**
**Adroddiad statws, Medi 2023**

| 1 | **Fframweithiau NMWTRA, statws cyfredol** (mewn trefn gronolegol y dyddiadau gorffen arfaethedig) | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Fframwaith** | **Contract NEC** | **Dyddiad Dyfarnu'r Contract** | **Dyddiad gorffen** |
| | **Rheoli Traffig** | NEC4 | 11 Mehefin 2019 | 11 Rhagfyr 2023* <br> **(Cyfnod wedi'i ymestyn i'r 4edd flwyddyn a'r flwyddyn olaf, estyniad o 6 mis ychwanegol)* |
| | ***Gwasanaethau Rheoli Traffig** | NEC4 | **ar hyn o bryd yn y cyfnod tendr* Rhagwelir Rhagfyr 2023 | Rhagfyr 2027 |
| | **Contractwr** | NEC4 | 27 Ebrill 2020 | 27 Ebrill 2024* <br> **(Cyfnod wedi'i ymestyn i'r 4edd flwyddyn a'r flwyddyn olaf)* |
| | **Gwaith Coed** | NEC4 | 12 Hydref 2020 | 12 Hydref 2023 <br> **(+1 flwyddyn)* |
| | **Gwaith Wynebu ac Ategol** | NEC4 | 01 Ebrill 2021 | 31 Mawrth 2025* <br> **(+ 1flwyddyn + 1flwyddyn)* |
| | **Asedau Priffyrdd a Dylunio Systemau** | NEC4 | 08 Tachwedd 2021 | 30 Hydref 2025* <br> **(+1 flwyddyn + 1 flwyddyn)* |
| | **Gwaith Mecanyddol, Trydanol a Sifil** | NEC4 | 08 Tachwedd 2021 | 30 Hydref 2025* <br> **(+1 flwyddyn + 1 flwyddyn)* |
| | **Gwasanaethau Ymgynghori Proffesiynol** | NEC4 | 07 Medi 2022 | 06 Medi 2026* <br> **(+1 flwyddyn + 1 flwyddyn)* |

| 2 | **Penawdau Allweddol yn y cyfnod (2023 / 2024) a'r cyfnod nesaf (2024 / 2025)** |
|---|---|
| 2.1 | **Contract Fframwaith Rheoli Traffig Dros Dro 2019**<br><br>Rydym wedi ymestyn Fframwaith Rheoli Traffig Dros Dro presennol NMWTRA (a fydd yn dod i ben ar 11 Mehefin 2023) am 6 mis arall. Y dyddiad gorffen yw 11 Rhagfyr 2023.<br><br>Gwneir hyn er mwyn sicrhau parhad gwasanaethau cyn dyfarnu'r Fframwaith newydd (para 2.2). |
| 2.2 | **Contract Fframwaith Gwasanaethau Rheoli Traffig 2023**<br><br>Yn ystod y cyfnod tendro ar hyn o bryd, dyddiad dychwelyd y tendr yw 27 Hydref 2023.<br><br>Dyddiad disgwyliedig y dyfarniad ym mis Rhagfyr 2023. |
| 2.3 | **Contract Fframwaith Gwasanaethau Ymgynghori Proffesiynol 2022**<br><br>Y dyddiad dechrau yw 7 Medi 2022. Cyfnod y Contract Fframwaith yw 2 flynedd, gyda'r posibilrwydd o ddau gyfnod estyniad o 12 mis yn ôl disgresiwn y Cleient.<br><br>Dyddiad gorffen cyfnod y Fframwaith yw mis Medi 2024, sy'n ymestyn hyd at fis Medi 2025 neu fis Medi 2026, os yw'r Cleient yn ymestyn y Cyfnod Fframwaith. |
| 2.4 | **Contract Fframwaith Gwaith Wynebu a Gwaith Ategol, cynnydd eithriadol mewn prisiau**<br><br>Mae'r diwydiant wynebu yn profi amrywiadau eithriadol mewn prisiau a phroblemau o ran cyflenwad deunyddiau ers dechrau 2022.<br><br>Rydym wedi gwneud addasiad eithriadol i Brisiau'r Fframwaith bob mis rhwng mis Ebrill 2022 a mis Medi 2023, gan ddefnyddio'r Bwletin Misol o Fynegeion perthnasol a gyhoeddwyd gan y Gwasanaeth Gwybodaeth am Gostau Adeiladu (BCIS) ar gyfer pob Gorchymyn Gwaith a adalwyd drwy'r Fframwaith Wynebu.<br><br>Byddwn yn parhau i addasu Prisiau'r Fframwaith bob mis o fis Hydref 2023 ymlaen gan ddefnyddio'r Bwletin Misol o Fynegeion (BCIS) perthnasol, a chymhwyso'r % addasiad i Brisiau Fframwaith ar gyfer yr holl Orchmynion Gwaith a adalwyd drwy'r Fframwaith Wynebu, hyd at ddyddiad y contract nesaf ym mis Ebrill 2024. |
| 2.5 | **Fframwaith Contractwyr 2020**<br><br>Mae Fframwaith Contractwyr NMWTRA wedi cael ei ymestyn i'r bedwaredd flwyddyn, a blwyddyn olaf tymor y Fframwaith. Y dyddiad gorffen yw Ebrill 2024. |
| 2.6 | **Contract Fframwaith Gwaith Adeiladu 2024**<br><br>Dyddiad cyhoeddi'r tendr ar gyfer adnewyddu'r Fframwaith Contractwr hwn fydd mis Hydref 2023.<br><br>Dyddiad arfaethedig y dyfarniad ym mis Mawrth 2024. |
| 2.7 | **Contractau Fframwaith a Chontractau Cyfnod, Addasu prisiau ar gyfer chwyddiant**<br><br>Prisiau wedi'u haddasu ar gyfer chwyddiant ar gyfer bob Contract Fframwaith a Chontract Cyfnod ddiwedd mis Mawrth 2023. Prisiau Fframwaith wedi'u haddasu ar gyfer blwyddyn 2023/2024. |

# ATODIAD G

## Cylch Gorchwyl y Cyd-bwyllgor
**(Dyfyniad o Gytundeb Partneriaeth 2012)**

**9 The Joint Committee**

9.1 The Authorities shall form a joint committee (The North and Mid Wales Trunk Road Agency Joint Committee) for the purpose set out in clause 9.2

9.2 The Joint Committee shall be responsible for supporting the Lead Authority and Service Provider Units in meeting the requirements of the Agency Agreement and its terms of reference shall be:-

9.2.1 to monitor work allocation to Service Provider Units

9.2.2 to ensure that the TRMU satisfies Welsh Government requirements with regard to the Agency Agreement

9.2.3 to monitor performance of Service Provider Units

9.2.4 to receive reports on the management of the Partnership arrangements, and to take any necessary action to ensure that the operation of the Partnership is satisfactory

9.2.5 to monitor arrangements and proposals to enable continuous improvement of the service provided to the Welsh Government under the Agency Agreement

9.2.6 to consider issues referred to the Joint Committee under clause 9.6.

9.3 Meetings of the Joint Committee

9.3.1 The Inaugural Meeting shall take place as soon as practicable following the signing of this Agreement. The Joint Committee shall thereafter meet at intervals agreed by the Joint Committee but at least once in every Financial Year and

9.3.2 the first meeting of the Joint Committee in any Financial Year shall take place before 30th September in that year

9.3.3 the time and venue for meetings of the Joint Committee shall be determined by the Chairman.

9.3.4 the provisions of paragraph 3 of Part 1 of Schedule 12 to the 1972 Act (calling of extraordinary meetings) shall apply to this Agreement subject to the variation that references to "five members" in that paragraph shall be construed as references to "Four Authorities"

9.4 Constitution of the Joint Committee

9.4.1 The Joint Committee shall consist of eight (8) councillors one (1) from each of the Authorities. Deputies will be allowed when the appointed member for an authority is unable to attend.

9.4.2 Each Authority shall have one vote. Unless otherwise stated decisions shall be made by simple majority of votes. The quorum shall be at least one member from each of five Authorities.

9.4.3 Save as varied by this Agreement the Standing Orders of the Lead Authority shall apply to the proceedings of the Joint Committee and that Authority shall be responsible for the administrative arrangements in connection with the convening of meetings of the Joint Committee.

9.4.4 The proper officer of the Joint Committee for the purposes of the 1972 Act shall be the Chief Executive of the Lead Authority and the Scheme of Delegation of the Lead Authority shall apply so far as it is relevant.

9.5 Chairman and Vice-Chairman

9.5.1 The Chairman and Vice-Chairman of the Joint Committee in any year shall not be from the same Authority.

9.5.2 The Chairman and Vice-Chairman may be consulted on amendments or variations to the Agency Agreement and on the entering into of further Agency Agreements

9.6 Role of Officers

9.6.1 The Chief Officers shall ensure service delivery in accordance with this Agreement and any other agreements between the Lead Authority and Service Provider Units, and in accordance with the Agency Agreement

9.6.2 The Agency Manager shall act as reporting officer to the Joint Committee assisted as necessary by the Chief Officers

9.6.3 If any Chief Officer has reason to consider that the TRMU is procuring services in a way which is inconsistent with this Agreement he shall be required in the first place to raise the matter with the Agency Manager in order to resolve the issue;

9.6.4 If the Agency Manager considers that a Service Provider Unit is not fulfilling the requirements of this Agreement he shall raise the matter in the first place with the Chief Officer responsible for the Service Provider Unit in order to resolve the matter

9.6.5 If the issues raised in sections 9.6.3 or 9.6.4 remain unresolved, then the Chief Officer for the Service Provider Unit and the Corporate Director of the Lead Authority will consider the issue and seek to resolve the matter.

9.6.6 If, having considered the matter the issue remains unresolved the Chief Officer or the Corporate Director may refer the matter to the Joint Committee for determination.